# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 17 Mai 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dwr Cymru

Marc Williams, CNC

Edward Davies, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LlC

Andrew Chambers, LlC

Nichola Salter, CNC

Jamie McCoy, AHDB

Geraint Hamer, LlC

Katy Simmons, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Fraser McAuley, CLA

Kate Snow, United Utilities

Ruth Johnston, CNC

Matthew Walters, LlC

Sarah Hetherington, CNC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Simon Bareham, CNC (Eitem 5)

Phil Roberts, Llywodraeth Cymru (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Shane Thomas, CFF

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a Chamau Gweithredu

3. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y grŵp ac yna'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig felly fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

4. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2021.

5. Eglurodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ym Mhwynt 58 mewn perthynas ag Adroddiadau Ymgysylltu Cyswllt Ffermio, mai cyfanswm y busnesau mewn gwirionedd yw nifer y busnesau sydd wedi'u *cofrestru* yn y dalgylch hwnnw.

6. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill ynghylch cofnodion cyfarfod Ebrill 2021.

7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, daenlen y Log Gweithredu er mwyn i'r grŵp adolygu'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau ers y cyfarfodydd blaenorol. Soniwyd am y sylwadau nodedig canlynol:

- PG 18 Ionawr: Zoe i barhau i geisio cyfathrebu â Tractor Coch a'u gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.

\- *Gwahoddir Tractor Coch a'r* Cynllun Gwarant Fferm Da Byw (*FAWL) i gyflwyno i'r grŵp yng nghyfarfod yr Is-grŵp ym mis Mehefin.*

- PG 23 Ionawr: Sarah a Marc i gyfleu'r sylwadau ynghylch rheoli fersiynau i'r rhaglenni digidol a rhoi adborth i'r grŵp.

\- *Mae Marc Williams, CNC, wedi cyfarfod â Thîm y Cyfryngau a bydd yn mynd ar drywydd hyn.*

- PG 05 Mawrth: Meinir Wigley i gysylltu â Chyswllt Ffermio ac unrhyw aelodau eraill o'r Is-grŵp i drafod y cynllun cyfathrebu ynghylch gweithredu'r rheoliadau.

\- *Dywedodd Katy Simmons, CNC, bod CNC yn hapus i gefnogi gyda rhannu negeseuon ar hyn o bryd. Pan fydd CNC wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen, bydd cyfathrebiadau sy'n benodol i CNC ar sut y caiff y rheoliadau eu gorfodi ar gael.*

- PG 05 (22 Mawrth): Bob Vaughan, CNC, i rannu canllawiau â'r grŵp sy'n dweud bod systemau storio slyri newydd yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau niwtral o ran ffosffad.

\- *Dywedodd Bob Vaughan, CNC, y bu rhai trafodaethau ynglŷn â hyn. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Rachel Lewis-Davies maes o law.*

- PG 01 Ebrill: Spencer i rannu'r diweddariad i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ynghylch ffermwyr tenant.

\- *Dywedodd Spencer fod y ddogfen gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Unwaith y bydd y ddogfen yn barod, caiff ei dosbarthu i'r aelodau.*

- PG 05 Ebrill: Sarah Jones, Dŵr Cymru, i wahodd aelod o'r tîm Biosolidau i roi cyflwyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

\- *Gwahoddwyd aelod o dîm Biosolidau Dŵr Cymru i gyflwyno i'r grŵp yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.*

- PG 10 Ebrill: Cyswllt Ffermio i roi manylion ffeithlenni a digwyddiadau a drefnwyd ac sydd ar ddod i Ed Davies / Bronwen Martin, CNC, er mwyn i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Is-grŵp a'i dosbarthu wedyn i'w haelodau.

\- *Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod y weminar gyntaf wedi cael sêl bendith, ac y bydd yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r rheoliadau a'r gefnogaeth sydd ar gael. Unwaith y bydd y dyddiadau a'r cynnwys wedi'u cwblhau, bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Is-grŵp.*

8. Awgrymodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), y dylai’r daenlen ymgorffori dyddiadau arfaethedig ar gyfer cwblhau camau gweithredu er mwyn helpu i’w holrhain.

## Eitem 3 Materion yn Codi

9. Soniodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn gyfle i aelodau drafod ac adrodd am unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, y papur diweddaru neu'n gyfle i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol â'r grŵp.

10. Dechreuodd y Cadeirydd drwy ddweud ei bod wedi edrych ar ddogfen Cynllun Cyfathrebu Llywodraeth Cymru ac wedi nodi bod llawer o bethau da ar y gweill. Soniodd Zoe nad oedd y ddogfen yn cynnwys manylion am 'sut' y bydd rhai o'r pethau'n cael eu cyflawni. Oherwydd Covid, mae her barhaus gan nad yw pobl yn cyfarfod wyneb yn wyneb eto, ac roedd Zoe’n cwestiynu sut bydd y negeseuon yn cael eu cyfleu i ffermwyr.

    Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, y bydd Cyswllt Ffermio yn gwneud llawer o'r gwaith cyflawni a'i bod wedi bod yn llwyddiannus wrth ymgysylltu â ffermwyr. Un o ddibenion rhannu gwybodaeth y Cynllun Cyfathrebu oedd cael syniadau gan yr Is-grŵp. Mae gan aelodau'r grŵp eu dulliau cyfathrebu eu hunain, a gallant helpu i ledaenu’r negeseuon.

    Soniodd Fraser McAuley, CLA, eu bod wedi derbyn llawer o alwadau a chael trafodaethau gyda'u haelodau pan gyflwynwyd y rheoliadau yn gyntaf. Dywedodd Fraser fod y CLA yn ceisio cadw'r sgwrs i fynd gydag aelodau’r corff ynglŷn â chyfnodau'r rheoliadau yn y dyfodol a'r newidiadau y bydd angen i ffermwyr eu gwneud. Mae CLA yn defnyddio'r dulliau arferol fel eNews, yn ogystal â gweminarau. Bydd angen parhau i gyfathrebu, yn enwedig mewn perthynas â gwybodaeth am gynllunio, newidiadau i seilwaith a gwneud cais am gyllid. Mae cyfarfod trawsffiniol yn cael ei drefnu gyda swyddogion DEFRA, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru, i edrych ar y gwahaniaethau rheoleiddio yng Nghymru a Lloegr a sut y bydd aelodau sy'n ymwneud â dwy ochr y ffin yn ymdrin â hwy.

    Gofynnodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, i Fraser a yw'r cyfarfod trawsffiniol wedi'i drefnu eto. Dywedodd Fraser fod y cyfarfod yn amodol ar gyfyngiadau Covid ond mai'r gobaith oedd ei gynnal ym mis Awst, os bydd y sefyllfa'n caniatáu.

11. Anfonwyd dogfen diweddaru Prosiect Slyri at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cwestiynodd Creighton Harvey, CFF, 'lwyddiant' Prosiect Slyri a nodwyd yn y ddogfen. Dywedodd Creighton fod y prosiect, mewn gwirionedd, wedi methu â chynhyrchu'r canlyniad gofynnol yn yr amser gofynnol. Soniodd Creighton ei fod ef a llawer o rai eraill, yn nyddiau cynnar y prosiect, yn poeni, oni bai bod Prosiect Slyri yn llwyddiannus, y byddai'n esgus dros beidio â bwrw ymlaen ag unrhyw ddiweddariadau ar seilwaith ffermydd i atal llygredd amaethyddol. Roedd cynrychiolwyr CFF ar grŵp llywio Prosiect Slyri, ac maent wedi mynychu cyfarfodydd cyhoeddus lle maent wedi siarad â phobl a oedd o'r farn bod yr ateb i lygredd amaethyddol ar fin dod ar ffurf Prosiect Slyri. Awgrymodd Creighton y gellid ychwanegu Prosiect Slyri at agenda'r cyfarfod nesaf i drafod cynnydd y prosiect oherwydd ei fod yn dal rhywfaint o fuddsoddiad yn ôl i wella seilwaith ffermydd. Nid dyma'r bwriad gwreiddiol.

Awgrymodd Zoe y gallai'r grŵp fynd yn ôl drwy rai o'r prosiectau arloesi eraill a archwiliwyd ar yr un pryd â Phrosiect Slyri, er mwyn cael dealltwriaeth o ble maen nhw ar hyn o bryd.

***PG 01 Mai: Ed Davies / Bronwen Martin, CNC, i ddod o hyd i wybodaeth am y prosiectau arloesi eraill a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp.***

Dywedodd Marc Williams, CNC, fod gan Brosiect Slyri rywfaint o gyllid pellach i symud ymlaen. Maent wedi edrych ar dynnu llawer o'r maetholion a’r solidau mewn daliant. Mae rhywfaint o waith i'w wneud o hyd ar y Galw am Ocsigen Cemegol (COD) a lliwiad, a dyna pam maent yn ystyried creu gwlyptir ar gyfer defnyddio rhywfaint o'r dŵr. Mae John Owen yn fwy na pharod i ddod i'r grŵp i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn maent yn ei wneud a'r camau nesaf. Dywedodd John Owen y byddai hefyd yn hoffi gwahodd y grŵp yn ôl i fwrw golwg ar y cynnydd, pan fydd y sefyllfa'n caniatáu hynny. Bu rhai cyfyngiadau ac oedi gyda Covid, ond maent yn gobeithio symud ymlaen gyda rhai o gamau nesaf y prosiect.

12. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei fod yn siomedig nad yw'r diweddariad i’r ddogfen Cwestiynau Cyffredin ar gyfer ffermwyr tenant wedi'i gyhoeddi eto. Yr unig gyngor maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yw 'siarad yn garedig â'ch landlord’. Ar hyn o bryd, yr unig gyfeiriad at ffermwyr tenant yn y ddogfen Cwestiynau Cyffredin yw bod y rheolau'n berthnasol i bob ffermwr, p'un a ydych chi'n berchen ar y tir neu'n ei rentu. Soniodd Dennis fod cyfeiriad at y ffaith bod beth bynnag mae'r rheolwr tir yn ei wneud ar y fferm mewn blwyddyn yn effeithio ar yr hyn y gall rheolwr tir neu berchennog newydd ei wneud am weddill y flwyddyn. Felly, os ydych chi'n ffermwr tenant, byddai angen i'r meddiannydd newydd wybod faint yn union o slyri/tail/gwrtaith artiffisial sydd wedi'i roi ar y tir a'r gyfradd stocio hyd at y pwynt newid meddiannydd. Mae hyn yn golygu, yn achos tenant, y byddai angen i'r landlord wybod yr wybodaeth hon, a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff y rhent ei gyfrifo. Soniodd Dennis fod llawer o bethau o fewn cytundebau tenantiaeth y gallai Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 effeithio arnynt, ac roedd yn cwestiynu a oes gan Lywodraeth Cymru yr arbenigedd a'r cymhwysedd i roi cyngor ar broblemau a heriau tenantiaethau fferm.

    Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod y diweddariad Cwestiynau Cyffredin ynglŷn â ffermwyr tenant gyda'r cyfreithwyr ar hyn o bryd gan ei fod yn faes pwnc cymhleth iawn.

13. Anfonwyd dogfen Datganiad Sefyllfa Safonol y Biosolids Assurance Scheme at yr aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd Ed Davies, CNC, fod llawer o gyfeiriad at 'Barthau Perygl Nitradau' yn y ddogfen. Felly, mae potensial y bydd yr iaith hon yn drysu ffermwyr lle cyfeirir at 'Barthau Perygl Nitradau' yn y safonau ar ôl y dyddiadau gweithredu. Mewn gwirionedd, mae'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau’n cael eu tynnu'n ôl, felly byddai'n well cyfeirio at 'dir' o ystyried y bydd Cymru gyfan yn gweithredu o dan yr un rheolau. Gall y gwelliant awgrymedig hwn ddileu unrhyw amwysedd. Gofynnodd Ed pwy fyddai orau i godi'r mater hwn gyda'r Cynllun Sicrwydd Biosolidau; CNC, cwmnïau cyfleustodau neu'r grŵp.

    Dywedodd Nichola Salter, CNC, mai Julie Tate yw'r Arweinydd Polisi Gwastraff o fewn CNC a fyddai fel arfer yn ymdrin â hyn. Cyn Covid, byddai cyfarfod wedi bod rhwng

CNC a Dŵr Cymru i drafod y rheoliadau ond, oherwydd y sefyllfa bresennol, mae wedi'i wthio'n ôl.

***PG 02 Mai: Nichola Salter, CNC, i siarad â Julie Tate, CNC, a threfnu cyfarfod gyda Thîm Gwastraff/Biosolidau Dŵr Cymru (dyddiad i'w drefnu cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp).***

Dywedodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, y bydd ei chydweithiwr Shaun Thomas (Rheolwr Gweithrediadau Biosolidau) yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp ym mis Mehefin. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai aelodau gyflwyno unrhyw gwestiynau neu ymholiadau penodol cyn y cyfarfod i Shaun deilwra'r cyflwyniad yn unol â hynny.

***PG 03 Mai: Aelodau'r Is-grŵp i ddarparu unrhyw gwestiynau neu ymholiadau penodol i Sarah Jones, Dŵr Cymru, neu Bronwen Martin, CNC, i'w cyflwyno i Shaun Thomas cyn ei gyflwyniadau (cwestiynau i'w hanfon erbyn 14 Mehefin ar yr hwyraf).***

## Eitem 4 Cylch Gorchwyl a Dewisiadau E-bost

14. Nododd y Cadeirydd fod angen diweddaru'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae dogfen wedi'i hailddrafftio wedi'i hanfon at yr aelodau i'w hadolygu, a gobeithio y gellir cytuno ar ddrafft terfynol yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r grŵp am unrhyw adborth a sylwadau.

15. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, y dylai'r ddogfen ddarllen 'Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru'.

16. Dywedodd Creighton Harvey, CFF, ei fod yn poeni'n fawr am rai paragraffau, yn enwedig pwyntiau 4.3 a 4.4.

*‘4.3 Mae pob aelod yn cefnogi egwyddorion y Grŵp ac yn cytuno i gefnogi amcanion y Grŵp. Ni fydd yr un aelod yn beio nac yn tanseilio gwaith na barn aelod arall. Bydd y Grŵp yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir drwy gyflwyno barn a safbwyntiau mewn modd adeiladol sy’n dangos parch. Bydd unrhyw aelodau yn y dyfodol yn cydnabod ac yn cytuno â'r egwyddorion hyn.’*

Soniodd Creighton fod hyn yn peri pryder mawr gan ei fod yn cyfyngu ar feddyliau ac ymddygiad pobl. Os edrychwch chi ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda dau aelod o'r grŵp hwn, mae NFU Cymru wrthi’n cynnal adolygiad barnwrol o weithredoedd Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r rheoliadau. Mae hyn yn dangos pa mor ddisynnwyr yw'r paragraff hwn ac mae'n ceisio tawelu pryderon aelod i bob pwrpas. Awgrymodd Creighton y dylid dileu 4.3.

*‘4.4 ... Cadw at bolisi 'dim byd annisgwyl' fel rhan o ddull cydweithredol o ymdrin â gwaith y Grŵp’*

O ran pwynt 4.4, soniodd Creighton y bydd sefydliadau sy'n aelodau o'r fforwm hwn yn cael sgyrsiau anodd o fewn y grŵp ac nad ydynt bob amser yn mynd i ddatgelu pethau mewn cyfarfodydd. Dywedodd Creighton na all ddweud bod pob aelod yn cydweithio bob amser oherwydd bod buddiannau unigolion mor eang. Awgrymodd Creighton y dylid dileu'r pwynt hwn ym mharagraff 4.4 hefyd.

17. Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, ei fod yn cytuno â sylw Creighton ond am wahanol resymau a chan gydnabod yr enghraifft a gododd. Er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda chymaint o dryloywder â phosibl, dywedodd Spencer na fyddai'r Llywodraeth yn gallu cytuno i'r dull 'dim byd annisgwyl'. Dywedodd Spencer y bydd yn edrych ar y ddogfen yn fanylach ac yn rhoi sylwadau pellach.

18. Cytunodd Chris Mills, WEL, â sylwadau cynharach ond awgrymodd fod angen cyfeirio at y ffordd mae pobl yn ymddwyn mewn cyfarfodydd. Dywedodd Chris fod angen i bobl fynegi barn amrywiol weithiau, ond dylai pawb ddangos parch bob amser.

19. Soniodd Sarah Hetherington, CNC, fod y paragraffau hyn yn ceisio ymgorffori egwyddorion y ffyrdd o weithio o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Awgrymodd Sarah efallai fod angen rhoi rhywfaint o sylw i eiriad y ddogfen, ond mae angen i ni fynd i'r afael o hyd â'r ffaith bod y grŵp hwn wedi'i sefydlu i wneud rhan o'r gwaith cydweithredol y mae'n statudol ofynnol i ni ei wneud. Dywedodd Sarah na fyddai am i'r paragraffau hyn gael eu dileu yn llwyr ond, yn hytrach, yr hoffai iddynt gael eu diwygio'n briodol.

    Gofynnodd Chris a yw'r ddarpariaeth yn berthnasol i sefydliadau statudol yn unig neu a yw hefyd yn berthnasol i sefydliadau anstatudol. Dywedodd Sarah ei fod yn berthnasol i sefydliadau statudol. Dywedodd Chris fod problem wedyn gan fod y grŵp yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol. Soniodd Zoe fod angen i'r geiriad a'r iaith fod yn glir.

20. Soniodd Creighton fod angen drafftio'r ddogfen fel nad yw'n agored i gamddehongliad.

21. Gofynnodd Zoe, ar wahân i'r pwyntiau a godwyd eisoes, a oedd y grŵp yn credu bod y ddogfen wedi llwyddo i nodi hanfod y grŵp. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.

***PG 04 Mai: Pob aelod i gyflwyno unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynghylch y ddogfen Cylch Gorchwyl ddrafft i Ed Davies / Bronwen Martin, CNC, erbyn 4 Mehefin fel y gellir ailddrafftio'r ddogfen yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

## Eitem 5 Trafodaeth Deddf Aer Glân (Cymru)

22. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Phil Roberts, Llywodraeth Cymru, a Simon Bareham, CNC, i drafod y Ddeddf Aer Glân, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac amonia.

23. Dechreuodd Simon drwy ddisgrifio effeithiau nitrogen:

    - Collir nitrogen i'r aer fel amonia
    - Mae'n disgyn ar y tir, gan effeithio ar ecosystemau
    - Gall hefyd ymateb i lygryddion eraill i wneud Deunydd Gronynnol
    - Mae ffermio'n cyfrannu tua 85% o allyriadau amonia
    - Mae angen i allyriadau amonia fod 16% yn is o gymharu â lefelau 2005

24. Soniodd Phil fod y Cynllun Aer Glân wedi'i lansio ym mis Awst ac mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr drwy:

- Roi'r cyngor diweddaraf i ffermwyr ar sut i leihau allyriadau amonia
- Eu cynorthwyo i ffermio'n gynaliadwy drwy gynllun taliadau newydd
- Cyflwyno deddfwriaeth newydd (pan fydd cyngor a chymorth yn annhebygol o arwain at yr un canlyniad)
- Daeth yr ymgynghoriad ar y Bil Aer Glân i ben ym mis Ebrill

25. Disgrifiodd Phil y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a fydd yn gwobrwyo ffermwyr am gyflawni camau gweithredu sy'n cyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (rhaid iddynt ddarparu 'elfen ychwanegol' ar ben gofynion rheoleiddio). Rhaid i'r cynllun yn y dyfodol:
    - Gefnogi cynhyrchu bwyd cynaliadwy, diogel a maethlon
    - ymateb i’r argyfwng hinsawdd
    - Helpu i wrthdroi colli bioamrywiaeth
26. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu:
    - Cymorth cyfalaf
    - Dolenni i SBVs
    - Gwasanaeth cymorth
27. Mae Llywodraeth Cymru yn dylunio cynllun sy'n:
    - Cefnogi a gwobrwyo ffermwyr am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy
    - Sicrhau bod canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyflawni gyda'i gilydd (dim cyfnewidiad)
    - Hygyrch i'r rhan fwyaf o ffermwyr ar yr un pryd â chymell/gwobrwyo arferion gorau
    - Gwobrwyo creu yn ogystal â chynnal a chadw
28. Dangosodd Phil lle mae amonia yn cael ei golli yn y system ffermio a nododd yr ardaloedd lle gall gollyngiadau ddigwydd, er enghraifft, gollyngiadau amonia o lety anifeiliaid, storio a thaenu tail a thaenu gwrtaith.
29. Mae’r camau gweithredu posibl a ystyrir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys (mae’r canran yn cyfeirio at ostyngiad unigol yn seiliedig ar ymarfer tystiolaeth):
    - Rheoli maeth (15%)
    - Crafu mynych er mwyn carthu (15%)
    - Golchi'r iard gasglu (70%)

- Lloriau allyriadau isel (35%)
- Triniaeth aer (90%)
- Sychu tail dofednod (30%)
- Gorchudd storfa slyri (80% / 50%)
- PH slyri is (50%)
- Taenu manwl (30% / 60% / 70% / 90%)
- Aredig tail i mewn (45-80%)
- Gwrtaith wrea (70% / 80% / 90%)
- Gwregysau coed (20%)

30. Trafododd Phil rai enghreifftiau o'r hyn y gallai system fferm 'ddelfrydol' ei gynnwys, gan gynnwys y canlynol:

- Rheoli maethynnau
- Tymor pori estynedig
- Crafu mynych er mwyn carthu
- Llawr allyriadau isel
- Triniaeth aer
- Sychu tail dofednod
- Storfa wedi'i gorchuddio
- PH slyri is
- Gwregysau coed
- Cynllunio Rheoli Maethynnau
- Taenu manwl
- Dim wrea
- Dim gwrtaith

31. Soniodd Phil fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar gasglu tystiolaeth gyda gweinyddiaethau eraill y DU, gan gynnwys y prosiect Nitrogen Futures a oedd yn edrych ar rai camau gweithredu eang o fewn y diwydiant. Y prif gwestiwn yw 'sut y gallwn ni dargedu camau gweithredu'r cynllun ffermio cynaliadwy er mwyn cael y manteision mwyaf?', mae rhai awgrymiadau'n cynnwys:

- Bodloni targedau ansawdd aer
- Gwella bioamrywiaeth (safleoedd gwarchodedig)
- Gwneud y defnydd gorau o arian trethdalwyr
- Rhoi hyblygrwydd i ffermwyr

32. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, nad yw coed wedi cael eu crybwyll yn fanwl yn y drafodaeth am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mae’r un peth yn wir am fanteision gwrychoedd; mae'r rhain yn broblemau mawr i ffermwyr tenant.

    Dywedodd Phil ei fod yn ymwybodol o'r materion anodd yn ymwneud â thenantiaethau fferm ond efallai mai dim ond os bydd y cynllun yn dweud 'bydd rhaid i bob fferm blannu' rhywfaint o goed y bydd hyn yn broblem; os felly, byddai hwn yn broblem ddifrifol i ffermwyr tenant. Dywedodd Phil ei bod hi'n annhebygol y bydd y cynllun yn dweud hyn, ond efallai y bydd rhai elfennau o'r cynllun na fydd ffermwyr tenant yn eu defnyddio. Mae pethau y gall Llywodraeth Cymru weithio arnynt gyda'r Gymdeithas Ffermwyr Tenant (TFA) i weld sut y gellir goresgyn y materion hyn. Soniodd Phil nad yw 'gwrychoedd' yn aml yn cael eu llawn werthfawrogi o ran eu manteision dal carbon a phethau eraill. Efallai mai dim ond ar wrychoedd y mae'n rhaid i ffermwyr tenant ganolbwyntio, ond mae rhai manteision enfawr a all ddeillio o'u rheoli, ac mae hyn yn enghraifft o opsiwn y gellir ei archwilio gyda'r TFA.

33. Cytunodd Fraser McAuley, CLA, â phwynt Dennis a’r gobaith yw y daw'n gliriach sut y gall tenantiaid a landlordiaid gydweithio, unwaith y bydd rhagor o fanylion am y cynllun ar gael. Dywedodd Fraser fod un o'i gydweithwyr wedi gweithio gyda George Dunn, TFA, ar nodyn cyfarwyddyd i ffermwyr tenant a thirfeddianwyr ynghylch plannu coed.

***PG 05 Mai: Fraser McAuley, CLA, i ystyried a ellir rhannu'r Nodyn Cyfarwyddyd plannu coed gyda'r grŵp.***

Dywedodd Fraser fod y cyflwyniad yn ddiddorol iawn. Ar hyn o bryd, mae aelodau'r CLA am fwrw ymlaen â'r pethau hyn gan nad yw 2024 mor bell â hynny i ffwrdd, ond eto nid ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd. Bydd llawer o'r newidiadau sydd ar y gweill yn gofyn am ddysgu a buddsoddi, felly byddai'n ddefnyddiol cael cymaint o wybodaeth fanwl cyn gynted â phosibl, er enghraifft, a oes angen profi, treialu neu gynlluniau peilot ar bethau.

34. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, ei fod hefyd yn cytuno â phwyntiau Dennis, ond bod problemau’n bodoli i bob ffermwr, nid dim ond tenantiaid. Gofynnodd Bernard i'r grŵp ystyried y sefyllfa bresennol wrth i gytundebau masnach rydd geisio cael eu sefydlu rhwng gwahanol wledydd ledled y byd. Mae Awstralia, Seland Newydd ac UDA eisoes yn parhau i obeithio am fynediad di-dariff i'n marchnadoedd, ond ni fyddant yn wynebu'r un lefel o reoleiddio ag y bydd ffermwyr y DU yn ei hwynebu. Awgrymodd Bernard fod hyn yn rhywbeth a oedd ar goll o'r cyflwyniad; mae ffermio'n fusnes ac yn fusnes cystadleuol ar hynny, a bydd rhaid i ni gystadlu â gwledydd eraill.

    O ran Brand Cymru, dywedodd Bernard ei fod yn gysyniad da ond, pan fyddwch chi'n mynd i archfarchnad, agorwch eich llygaid ac edrychwch beth mae defnyddwyr yn ei

brynu gan fod pobl yn gyffredinol yn prynu ar sail cost. Efallai y bydd rhai pobl yn cefnogi Brand Cymru, ond ni fydd y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn gwneud hynny.

Awgrymodd Bernard fod llawer o gyfnewidiadau mewn perthynas â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y taliad rheoli cynaliadwy yn disodli cynllun y taliad sylfaenol yr oedd ffermwyr yn ei gael ac yn gallu ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r busnes a’i fuddsoddi fel yr oeddent yn dymuno. Bydd yna gyfnewidiadau hefyd o ran yr hyn y bydd y mesurau hyn yn golygu y gall ffermwyr ei gyflawni o ran cynhyrchu. Felly, mae llawer o bethau i'w hystyried wrth ddylunio'r cynllun hwn.

Cytunodd Bernard mai amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r allyriadau amonia, ond awgrymodd os byddwch chi'n edrych ychydig yn fanylach ar y ddadl ar y newid yn yr hinsawdd, nad amaethyddiaeth yw'r prif sector sy'n gyfrifol am allyriadau byd-eang. Pan fyddwch chi'n ystyried trafnidiaeth, gweithgynhyrchu a diwydiannau eraill, nid amaethyddiaeth yw'r prif dramgwyddwr.

Cytunodd Phil y bydd y DU yn debygol o wynebu pwysau cynyddol o dramor, ond bydd cyfleoedd newydd hefyd. Dywedodd Phil ei fod yn edrych ar ffyrdd o annog ffermwyr i fod yn fwy proffidiol a gwella eu hôl troed amgylcheddol hefyd. Mae'r rhain yn aml yn mynd law yn llaw, er enghraifft, wrth edrych ar y system fferm, os ydych chi'n colli llai o faethynnau i'r amgylchedd, bydd gennych chi wrtaith mwy gwerthfawr, sy'n wych, ac mae'r cynllun hwn yn mynd i dalu ffermwyr i wneud y mathau hyn o bethau.

35. Awgrymodd y Cadeirydd fod llawer o ffermwyr yn rhoi systemau godro newydd ar waith, a gorau oll os ydynt yn cael gwybod mwy am yr wybodaeth hon. Mae'n fwy costeffeithiol ac effeithlon i osod llawr allyriadau isel arbennig pan fyddant yn buddsoddi i ddechrau, yn hytrach na'i osod yn ddiweddarach. Dyma gyfle gwych arall i gyfathrebu â ffermwyr, felly cynigiodd Zoe wasanaethau Phil a Simon i gyflwyno i sefydliadau'r Is-grŵp i'w helpu i gyfleu'r negeseuon.

36. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Simon Bareham, CNC, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Amonia ar gyfer cynllunio a thrwyddedu.

37. Soniodd Simon mai diweddariad yw hwn ar y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2017:

- Aeth y canllawiau newydd yn fyw ar 13 Mai 2021
- Anfonwyd negeseuon e-bost at yr holl bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad
- Cysylltwyd â'r ymgynghorwyr sy'n gwneud y modelu

38. Rhoddodd Simon drosolwg o’r hyn a newidiodd o ganlyniad i'r ymgynghoriad:

- Newidiadau strwythurol i gynorthwyo eglurder
- Mapiau wedi'u diweddaru
- Dileu'r gofyniad i fodelu llwyth critigol
- Newid pellteroedd sgrinio i adlewyrchu risg
- Ffactorau allyriadau wedi'u safoni, dim ond un set i'w defnyddio

- Cynnwys canllawiau ar fodelu manwl
- Esbonio sut rydym yn ymdrin â phrosiectau sy'n gwella allyriadau cyffredinol neu risg o lygredd
- Ychwanegu tudalen ar sut i bennu maint a chynnal a chadw sgwrwyr asid

39. Esboniodd Simon beth sy'n digwydd nawr, gan gynnwys:

    - Pob cais newydd i ddefnyddio'r canllawiau newydd
    - Bydd ceisiadau yn y system yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r canllawiau priodol (mae rhai ymgynghorwyr eisoes yn defnyddio'r canllawiau newydd)
    - Bydd y ceisiadau hynny a wneir rhwng gwahanol fersiynau o'r canllawiau yn cael eu hystyried mewn ffordd bragmatig.

    Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CNC gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

    Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiadau amonia ar gyfer datblygiadau sydd angen trwydded neu ganiatâd cynllunio

40. Soniodd Bob Vaughan, CNC, ei fod ef a Simon Bareham, CNC, wedi siarad â Dennis Matheson, TFA, ychydig wythnosau yn ôl gyda Mark Alexander, Llywodraeth Cymru, ynglŷn â'r pwnc hwn. Dywedodd Bob y byddai ef a Simon yn hapus i drafod y pwnc gydag unrhyw un o aelodau'r Is-grŵp i weld sut mae hyn yn effeithio arnynt. Soniodd Simon fod cyfres o weithdai wedi'u trefnu ar y Prosiect Nitrogen Futures, a chafwyd llawer o adborth defnyddiol.

41. Soniodd Nichola Salter, CNC, fod y papur diweddaru yn cynnwys dolen we i'r diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Storio silwair a slyri. Mae'r ddau wedi'u cysylltu â'i gilydd, er enghraifft, os yw rhywun yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer storfa slyri newydd, gellir defnyddio'r ddwy dudalen we hyn (asesiadau amonia a storio silwair a slyri) er gwybodaeth.

42. Awgrymodd Bob Vaughan, CNC, y gallai rhywfaint o wybodaeth am asesiadau amonia a storio silwair a slyri gael ei darparu a'i defnyddio fel cyfathrebiad i aelodau yng nghyhoeddiad Cylchlythyr yr Is-grŵp.

***PG 06 Mai: Ed Davies, CNC, i gynnwys gwybodaeth am yr asesiadau amonia a storio silwair a slyri yng nghyhoeddiad Cylchlythyr yr Is-grŵp.***

## Eitem 6 Mesurau Amgen (Ymreolaeth a Enillir)

43. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, i gyflwyno 'Mesurau Amgen (Ymreolaeth a Enillir)' ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae hwn yn gyfle i'r diwydiant gynnig mesurau amgen yn seiliedig ar dystiolaeth a gwyddoniaeth a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

44. Esboniodd Spencer fod y term 'ymreolaeth a enillir' yn aml yn cael ei gymysgu â 'chydnabyddiaeth a enillir', sy'n ddau beth gwahanol iawn. Mae'r rheoliadau'n glir ac yn defnyddio'r term 'mesurau amgen' sef y term a ddefnyddir wrth symud ymlaen.

45. Rhannodd Spencer gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg o'r hyn mae Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021 yn ei ddweud am fesurau amgen:

- Mae'n cydnabod y gall fod dulliau amgen a fyddai'n *'sicrhau'r canlyniadau yn fwy effeithiol na'r mesurau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn'*

- Mae'r ddarpariaeth adolygu yn galluogi gwneud cynigion ar gyfer mesurau amgen i gyflawni canlyniadau o fewn 18 mis i ddod i rym.

- Yn fwriadol, nid yw'r ddarpariaeth yn rhy ragnodol ac mae'n gyfle eang iawn i ddatblygu cynigion (h.y. nid oes gofyniad i ddisodli'r holl fesurau yn y rheoliadau.

- Fel swyddogion sy'n cynghori'r Gweinidog, byddwn yn darparu canllawiau ar ddatblygu cynigion, ond <u>bydd rhanddeiliaid yn gyfrifol am ddatblygu cynigion</u> a bydd ganddynt y rhyddid i'w datblygu fel y gwelant yn briodol

- Yn y pen draw, mater i'r Gweinidog fydd penderfynu a all unrhyw gynigion ddod yn fesurau amgen addas.

46. Tynnodd Spencer sylw at ddarnau o'r Rheoliadau, gan gynnwys:

- Rheoliad 45:

- 45(1) Os ceir cynigion ar gyfer cyfres amgen o fesurau i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1) o fewn 18 mis i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a fyddai'r mesurau hynny'n sicrhau'r canlyniadau yn fwy effeithiol na'r mesurau o gynhwysir yn y Rheoliadau hyn.

- [Rheoliad 44(1): Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu rhaglen fonitro i asesu effeithiolrwydd y mesurau a osodir gan y Rheoliadau hyn <u>fel modd i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol.]</u>

- 45(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai cynigion a gyflwynwyd o dan baragraff (1) yn fwy effeithiol i sicrhau'r canlyniadau yn rheoliad 44(1), rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o fewn dwy flynedd i ddyfodiad i rym y Rheoliadau hyn, gan esbonio pa gamau a gymerir.

47. Esboniodd Spencer y byddai angen i gynnig mesurau amgen gynnwys neu elwa ar ddarparu'r canlynol:

- Rhaid ei weithredu drwy'r rheoliadau (e.e. nid cynllun gwirfoddol)

- Tystiolaeth wyddonol gadarn y byddai'r mesurau amgen yn sicrhau canlyniadau'n fwy effeithiol na'r mesurau presennol.

- Dylid defnyddio dull rhagofalus i fynd i'r afael â risg.

- Rhaid iddo gynnwys dull cadarn o sicrhau a gorfodi.

- Mecanwaith a fyddai'n galluogi busnesau fferm sy'n gweithredu'r mesurau amgen i gael eu nodi
- Mecanwaith clir i fusnesau fferm ddewis pa opsiwn y byddent yn ei weithredu
- Ystyried unrhyw oblygiadau chwarae teg (e.e. goblygiadau masnach)
- Sicrhau y bydd y mesurau amgen yn gweithio gyda chynlluniau yn y dyfodol (e.e. Cynllun Ffermio Cynaliadwy)

48. Dywedodd Spencer mai mater i bwy bynnag sy'n llunio cynnig yw penderfynu pa elfennau o'r rheoliadau y maent yn cynnig dewis arall ar eu cyfer. Efallai y byddant yn penderfynu cynnig dewis arall ar gyfer swm sylweddol o'r mesurau presennol neu ar gyfer nifer llai o'r mesurau presennol. Y naill ffordd neu'r llall, rhaid diffinio'n glir pa rai o'r mesurau presennol y cynigir y dewis amgen ar eu cyfer.

49. Daeth Spencer i'r casgliad bod hwn yn gyfle i'r diwydiant gyflwyno syniadau ar gyfer ffyrdd amgen o gyflawni'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell.

50. Gofynnodd Chris Mills, WEL, pam mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyfle hwn. Dywedodd Chris ei fod yn debygol bod cyfnod ymgynghori eang wedi ei gynnal ynghylch sut y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu, a chwestiynodd pam eu bod bellach yn cyflwyno lefel o gymhlethdod sydd braidd yn ddryslyd.

    Dywedodd Spencer fod y dystiolaeth ynghylch pam y cyflwynwyd y rheoliadau wedi'i thrafod o'r blaen ac na fyddai'r cyfiawnhad yn cael ei aildrafod. Mae'r rheoliadau hyn ar waith ac rydym bellach yn symud ymlaen i'w gweithredu. Dywedodd Spencer fod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod yn gyson yn y cyfnod cyn y rheoliadau bod ffyrdd gwell o wneud pethau, a dywedwyd wrthynt nad yw hon yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r broblem. Mae hwn yn gyfle i'r diwydiant gyflwyno cynigion ac, os caiff dewis arall ei gyflwyno sy'n sicrhau gwell canlyniadau o ran diogelu ein dyfrffyrdd, caiff ei ystyried yn gyfreithlon. Os yw'r mesurau amgen hyn yn darparu gwell canlyniadau ac yn seiliedig ar dystiolaeth, byddant yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau. Mae hwn yn gyfle cyfyngedig, ond mae'n agored i bwy bynnag sydd am gyflwyno cynnig am fesur amgen.

51. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC, i Spencer a allai ymhelaethu ar y 'sicrhau canlyniadau' a grybwyllwyd yn ei gyflwyniad. Mae'r rheoliadau'n cwmpasu mwy na dim ond ansawdd dŵr, felly pa ganlyniadau y byddai angen i bobl ddangos tystiolaeth yn eu cylch wrth gyflwyno cynnig.

    Dywedodd Spencer mai'r prif reswm cyffredinol dros weithredu'r rheoliadau yw lleihau colledion llygredd amaethyddol i ddŵr. Mae diffinio'r canlyniadau yn anodd o ran y gwahanol raddfeydd, er enghraifft, mae'r rheoliadau yn raddfa genedlaethol ac mae'n debygol y bydd unrhyw ddewis arall a gynigir ar raddfa fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i nodi gostyngiad rhifiadol mewn unrhyw lygryddion i ddŵr o ffermydd unigol gan nad yw hynny'n mynd i weithio. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru yn dweud bod amcan yn y rheoliadau yn cynnwys lleihau colledion llygryddion i ddŵr 5%, ar raddfa genedlaethol mae hynny'n eithaf arwyddocaol, ond nid yw hyn yn trosi i raddfa fferm unigol. Dywedodd Spencer y byddai angen i gynigion fod yn

gymharol ac o leiaf gyflawni'r un canlyniadau â'r rheoliadau presennol, neu ganlyniadau gwell.

52. Deallodd Fraser McAuley, CLA, bwynt Chris ynglŷn â'r ymgyngoriadau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Barn y CLA yw y byddai dull wedi'i dargedu'n well yn gweithio, ond mae'r rheoliadau'n dod i rym ac mae angen i ni wneud i bethau weithio wrth iddynt gael eu cyflwyno. Dywedodd Fraser mai'r anhawster wrth gynnig mesurau amgen yw'r un anhawster ag sydd gan Lywodraeth Cymru i ddangos y bydd y mesurau hyn yn gwneud gwahaniaeth. Felly, rydym yn cymharu dau beth nad ydynt wedi digwydd eto i weld a fyddant yn cyflawni'r nodau o leihau llygredd amaethyddol.

    Dywedodd Fraser, wrth i ni symud ymlaen, y bydd hi'n bwysig iawn cael mwy o eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ffermwyr, rheolwyr tir a thirfeddianwyr i wneud y newidiadau sydd eu hangen, yn enwedig yng nghamau diweddarach cyflwyno'r rheoliadau (er enghraifft, y newidiadau i'r seilwaith). Mae rhai o adroddiadau Llywodraeth Cymru wedi dangos bod lefel y cyllid sydd ei angen i godi pobl i lefel benodol yn debygol o fod yn annigonol fel y mae wedi'i nodi yn y grant busnes fferm a ffynonellau ariannu eraill. Mae'r CLA yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi, cyn gynted â phosibl, pa gymorth fydd ar gael ar ôl 2021/2022 i wneud i'r hyn y maent wedi'i gynnig weithio.

    Dywedodd Spencer fod hwn yn gyfle dewisol i sefydliadau gyflwyno cynnig os ydynt yn dymuno gwneud hynny. O ran yr wybodaeth, mae hyn yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyfathrebu ac yn gyfle i'r grŵp gynorthwyo a dweud wrth Lywodraeth Cymru pa wybodaeth sydd ei hangen ac ar ba ffurf. Bydd y cyllid yn cael ei wneud mor glir â phosibl, cyn belled ymlaen llaw ag y bo modd.

53. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, ei bod hi'n dda bod y drafodaeth ar fesurau amgen wedi codi'n gynnar yn y broses a bod hynny wedi rhoi digon o amser i'r grŵp feddwl am yr hyn sydd ei angen.

    Dywedodd Bob fod CNC eisoes wedi gwneud llawer o waith ar wahanol ddulliau y gellir eu mabwysiadu a'u haddasu ond gofynnodd i Spencer beth arall y mae angen i CNC ei roi i Lywodraeth Cymru i ddangos bod y pethau hyn wirioneddol yn gweithio'n dda.

    Dywedodd Spencer fod Llywodraeth Cymru yn hapus i eistedd i lawr a thrafod gyda'r grŵp neu unigolion. Gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo a chynghori, ond ni fydd yn gyrru hyn ymlaen. Atgoffodd Spencer y grŵp y dylai cynnig am fesur amgen fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn seiliedig ar risg ac yn rhagofalus, a rhaid iddo fod ar ffurf y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau.

    Derbyniodd Bob yr amodau a nododd Spencer. Gwnaeth CNC lawer o waith cyn i'r rheoliadau gael eu rhoi ar waith, a byddai'n help mawr i ddeall a nodi lle'r oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod diffyg yn y gwaith blaenorol hwn. Dywedodd Spencer y bydd angen cynnig penodol ar y Gweinidog sydd bellach yn ymwneud â'r rheoliadau nad oeddent ar waith ar y pryd. Rhaid i'r cynnig amlinellu'n benodol fesurau amgen i'r mesurau presennol, profi eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth a rhoi gwell canlyniadau na'r mesurau presennol.

54. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod yr Is-grŵp hwn, ynghyd â gwaith ac adroddiad yr NFU a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar y mesurau amgen a

arweinir gan ffermwyr, yn golygu llawer iawn o waith. Awgrymodd Bernard y byddai'n ddefnyddiol fel man cychwyn pe gallai Llywodraeth Cymru nodi elfennau cadarnhaol a negyddol yr adroddiad hwnnw a ble mae'r bylchau. Byddai hyn yn rhoi rhywfaint o gyfeiriad, yn amlygu lle mae angen gwneud gwaith yn y dyfodol ac yn nodi pa lefel o adnoddau sydd eu hangen.

55. O ran y dyddiadau a'r amseroedd terfyn, gofynnodd Zoe pe byddai’r grŵp yn gweithio ar gynnig sy'n helpu ffermwyr i wasgaru slyri ar adeg llawer mwy priodol, gan wneud gwell defnydd o'r maethynnau, lleihau llygredd cyffredinol a bod yn seiliedig ar dystiolaeth drwy apiau neu ddata; ai dyma'r math o gynnig neu brosiect a allai gael ei gyflwyno?

    Awgrymodd Spencer fod unrhyw gynigion amgen a gyflwynir yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyfnodau gwaharddedig a gofynion storio, gan mai dyma'r pynciau mae Llywodraeth Cymru wedi cael y mwyaf o ohebiaeth a chwestiynau arnynt. Gall Llywodraeth Cymru dderbyn cynigion o ddewisiadau amgen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi bod drwy broses asesu risg ac sy'n cynnwys synhwyro o bell neu dechnolegau newydd. Fodd bynnag, nid yw cynigion ynghylch gaeafau sych yn seiliedig ar risg a thystiolaeth.

56. Awgrymodd Zoe y gallai aelodau fod eisiau ystyried y posibilrwydd o archwilio opsiynau fel grŵp cyfunol neu efallai y bydd sefydliadau'n dewis archwilio cyfleoedd yn annibynnol.

57. Gofynnodd Chris Mills, WEL, a fyddai unrhyw addasu neu newid mesurau'n arwain at ymgynghori pellach. Dywedodd Chris y byddai'n anghywir pe bai'r mesurau'n cael eu newid, ni fydd pawb yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth honno ac efallai y bydd ganddynt resymau pam eu bod yn credu efallai nad yw'n mynd i weithio. Awgrymodd Chris fod angen rhyw fath o fecanwaith lle mae pobl eraill yn cael cyfle i wneud sylwadau.

    Dywedodd Spencer y byddai'n anarferol iawn i reoliadau gael eu newid heb ymgynghoriad.

58. Gofynnodd y Cadeirydd am roi 'mesurau amgen' ar agenda'r cyfarfod nesaf fel y gall y grŵp archwilio'r posibilrwydd o gydweithio ar gynigion posibl neu fel sefydliadau unigol.

***PG 06 Mai: Bronwen Martin, CNC, i ychwanegu 'Mesurau amgen' at agenda'r cyfarfod nesaf.***

59. Soniodd Chris Mills, WEL, fod angen i'r cynigion ar gyfer mesurau amgen fod yn haws i ffermwyr, yn dda i'r amgylchedd dŵr ac yn haws eu rheoleiddio.

    Awgrymodd Zoe efallai y gellid datblygu rhestr o egwyddorion yn y cyfarfod nesaf.

    Dywedodd Bob ei fod yn hapus i eistedd i lawr gydag aelodau'r grŵp i fynd drwy'r gwaith blaenorol a ddatblygwyd.

***PG 07 Mai: Bob Vaughan, CNC, i drafod y gwaith blaenorol, a ddatblygwyd gyda Chris Mills, WEL***

## Eitem 7 Strategaeth Ddŵr CLA

60. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Fraser McAuley, CLA, i gyflwyno strategaeth ddŵr newydd CLA: gweledigaeth ar gyfer yr amgylchedd dŵr.

61. Dywedodd Fraser y bydd adroddiad Strategaeth Ddŵr CLA yn cael ei gyhoeddi cyn hir (cyn cyfarfod nesaf yr Is-grŵp gobeithio) a rhoddodd drosolwg o'r strwythur, gan gynnwys:

    - Gweledigaeth
    - Sychder ac argaeledd dŵr
    - Amgylchedd dŵr ffyniannus
    - Gallu i wrthsefyll llifogydd
    - Crynodeb o'r argymhellion

62. Er bod yr adroddiad polisi hwn yn nodi camau gweithredu ar gyfer dŵr mewn tair adran ar wahân, maent i gyd yn gysylltiedig ac yn berthnasol i'r amgylchedd ehangach. Ni ellir gweld yr un ohonynt ar ei ben ei hun.

63. Ffordd ddefnyddiol o ddeall sut maent yn rhyngweithio yw drwy ystyried dŵr drwy lens cyfalaf naturiol. Rydym yn llwyr ddibynnol ar ddŵr i fyw, ac mae'r cyfalaf naturiol a ddarperir gan amgylchedd dŵr iach yn ei dro yn cefnogi cyfalaf cymdeithasol, dynol, ffisegol ac ariannol. Drwy edrych ar ddŵr gyda dull cyfannol sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd, gellir nodi'r atebion cywir, yn enwedig y rhai sydd â chyd-fanteision lluosog o ran ansawdd ac argaeledd dŵr, sy'n cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd a sychder gan wella bioamrywiaeth a gweithio tuag at dargedau'r Llywodraeth ar y newid yn yr hinsawdd.

64. Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn yr adroddiad CLA hwn, bydd angen i ffermwyr, tirfeddianwyr, y Llywodraeth, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, grwpiau perygl llifogydd, byrddau draenio mewnol a grwpiau adnoddau dŵr gymryd camau gweithredu. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae rheoli dŵr a'r stiwardiaeth mae rheolwyr tir yn ei darparu dros yr amgylchedd dŵr yn nwyddau cyhoeddus gwirioneddol, ac felly dylai fod wrth wraidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol.

65. Gweledigaeth y CLA yw y bydd gan fusnesau tir gwledig fynediad dibynadwy at gyflenwadau dŵr ar gyfer eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol erbyn 2030, eu bod yn gallu gwrthsefyll perygl llifogydd, a sychder, a'u bod yn cael eu cydnabod am eu stiwardiaeth o ansawdd ac adnoddau dŵr.

66. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut y gall aelodau'r CLA gyfrannu at stiwardiaeth amgylchedd dŵr Cymru, gan gefnogi busnesau a chymunedau. Rydym yn edrych ar yr holl ystyriaethau i dirfeddianwyr mewn tywydd sych a gwlyb: sychder ac argaeledd dŵr, ansawdd dŵr a'r amgylchedd, a'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae'r adroddiad hwn yn galw ar ffermwyr a thirfeddianwyr i weithredu, gan ddangos pa mor ganolog ydynt i sicrhau bod gennym amgylchedd dŵr ffyniannus, ond mae hefyd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod polisïau amaethyddol ac amgylcheddol yn y dyfodol yn

cefnogi'r camau hyn drwy reoleiddio teg, polisïau wedi'u cynllunio'n dda, opsiynau ariannu digonol a chydweithio wedi'i hwyluso.

67. Dywedodd Fraser fod dŵr yn hanfodol i gefnogi'r economi wledig sydd, yn ei dro, yn ychwanegu gwerth mawr at gynnyrch domestig gros y DU. I raddau helaeth, mae ffermwyr a rheolwyr tir yn dibynnu ar law ar gyfer eu busnesau fferm, ond mae angen i lawer dynnu dŵr o dan drwydded hefyd, fel arfer ar gyfer dyfrio cnydau a phrosesu bwyd. Nid oes dŵr o'r prif gyflenwad ar gael i lawer o ffermydd, felly maent yn dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat ar gyfer da byw, defnydd domestig neu eiddo gwledig eraill. Yn fyr, mae mynediad diogel a dibynadwy at ddŵr yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu a phrosesu bwyd.

68. Sychder ac argaeledd dŵr - yr achos dros weithredu:

- Gwanwyn 2020 oedd y gwanwyn mwyaf heulog yn y DU ers dechrau cadw cofnodion ym 1929
- Cyrhaeddodd y tymheredd 36.4°C yn haf 2020
- Mai 2020 oedd y mis Mai sychaf yn y DU ers dechrau cadw cofnodion ym 1929
- Mae'r DU ar y trywydd iawn i dymereddau fod 7.4°C yn boethach na'r tymereddau presennol erbyn 2050

69. Sychder ac argaeledd dŵr - argymhellion allweddol:

- Tynnu dŵr a sychder: dŵr i'r Cynllun Sychder Cenedlaethol, cydweithredu, canllawiau ar gyfer rheoli dŵr, cymorth cyfalaf
- Cyflenwadau Dŵr Preifat: taliadau teg i berchnogion cyflenwadau dŵr preifat, cymorth gwydnwch
- Storio dŵr: cymorth cyfalaf ar gyfer cronfeydd dŵr ar ffermydd, prosiectau ar raddfa fach fel cynaeafu dŵr glaw

70. Mae'r CLA yn galw ar y Llywodraeth i wneud y canlynol:

- a) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynnwys dŵr ar gyfer cnydau a da byw fel defnydd hanfodol o ddŵr yn y Cynllun Sychder Cenedlaethol ac yn y cynllun tynnu dŵr, o ystyried bod rheoli dŵr mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar ddalgylch yn angenrheidiol;
- b) gweithio gyda grwpiau adnoddau dŵr i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gynnwys pob tirfeddiannwr yn y broses gydweithredol i gytuno ar gynlluniau tynnu dŵr cynaliadwy a hyblyg;
- c) darparu gwybodaeth ac arweiniad ar amcanestyniadau dŵr ar lefel fferm i helpu gyda chynllunio rheoli dŵr;
- d) Grant Busnes i Ffermydd yng Nghymru ar gyfer arbed dŵr a thechnoleg ar gyfer systemau dyfrhau effeithlon.

71. Amgylchedd dŵr ffyniannus - yr achos dros weithredu:

- Mae ansawdd dŵr da yn ganolog i fioamrywiaeth, ecosystemau, dŵr at ddefnydd pobl a mwynhad y cyhoedd o gyrsiau dŵr a'r cynefinoedd sy'n dibynnu ar ddŵr daear

- Cyflawnodd 16% o gyrsiau dŵr yng Nghymru "statws da” yn 2015

- Nid dim ond ffermwyr a thirfeddianwyr!

72. Mae mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn gofyn am weithredu gan bawb. Rhaid i arferion amaethyddol newid er mwyn diogelu ansawdd dŵr. Bu camau breision o ran mynd i'r afael â tharddle penodol o lygredd dŵr a llygredd dŵr gwasgaredig o amaethyddiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae gwaith i'w wneud o hyd i fynd i'r afael ag effeithiau gwrteithiau, slyri a thail, plaladdwyr ac erydiad pridd. Mae'r defnydd o nitrogen wedi gostwng mwy na thraean yng Nghymru a Lloegr ers y 1980au, ac mae'r defnydd o ffosffad wedi haneru. Fodd bynnag, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif bod gweithgareddau amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig yn dal i fod yn gyfrifol am 31% o'r rheswm pam nad yw cyrff dŵr yn cyflawni statws da, ac amaethyddiaeth yw'r sector mwyaf sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau llygredd sylweddol.

73. Amgylchedd dŵr ffyniannus - argymhellion allweddol:

- Rheoleiddio, cyngor a chanllawiau: cymorth parhaus drwy Cyswllt Ffermio

- Camau gweithredu ar gyfer ffermio: cyllid grant, integreiddio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cydweithio â ffynonellau cyllid preifat

- Monitro a thargedau: cytuno ar dargedau gyda diwydiant, CNC i barhau i wella profion a monitro, gan ddibynnu llai ar fodelu

74. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru yn ariannu arferion rheoli tir ac atebion seiliedig ar natur sy'n cefnogi gwelliannau i ansawdd dŵr, yn enwedig y rhai sydd â chyd-fanteision ar gyfer lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu a bioamrywiaeth, megis plannu ar lannau afon a rheoli pridd.

75. Y gallu i wrthsefyll llifogydd - yr achos dros weithredu:

- 2007 – llifogydd haf ledled y DU

- 2013 – ymchwydd arfordirol yn East Anglia

- 2013-2014 – llifogydd Somerset Levels

- 2015-2016 – llifogydd gaeaf yng Ngogledd Lloegr

- 2018 – erydiad arfordirol yn Hemsby

- 2019 – llifogydd yn Wainfleet

- 2019 – llifogydd yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog, Swydd Lincoln, Canolbarth Lloegr, Cymru

- 2019 – methiant Cronfa Ddŵr Toddbrook
- 2019-2020 – llifogydd helaeth o stormydd Ciara a Dennis
- 2020 – y mis Chwefror gwlypaf ar gofnod

76. Yn wahanol i'r tebygolrwydd cynyddol o sychder a thywydd sych yn yr haf, rhagwelir y bydd y gaeafau'n gynhesach ac yn wlypach, gyda risg gynyddol o lifogydd, ymchwydd storm, erydu arfordirol a glaw trwm. Mae'r Swyddfa Dywydd yn amcangyfrif bod y newid yn yr hinsawdd wedi cynyddu'r risg o lifogydd yng Nghymru a Lloegr o leiaf 20% a hyd at 90%. Er nad oes llawer y gellir ei wneud i atal glawiad, o ran lleihau llifogydd, mae'r tri pheth canlynol yn hollbwysig: ymateb, adfer a gallu i wrthsefyll. Gall llifogydd llanwol ac afonol niweidio tir amaethyddol yn ddifrifol. Yn ystod y gyfres o ddigwyddiadau glaw trwm a llifogydd yn ystod gaeaf 2018-2019, treuliodd ffermwyr yn Swydd Lincoln a Chanolbarth Lloegr hyd at dri mis o dan ddŵr, gyda'r priddoedd dwrlawn yn arwain at gynnyrch cnydau gwael, erydiad a dŵr ffo, difetha porthiant, halogi dŵr ac effeithiau ar iechyd anifeiliaid. Amcangyfrifodd astudiaeth ADAS yn dilyn llifogydd 2013-2014 yng Ngwlad yr Haf bod cyfanswm cost y llifogydd hynny i dir amaethyddol tua £18.9 miliwn.

77. Gallu i wrthsefyll llifogydd - argymhellion allweddol:

    - Cyfrifoldebau tirfeddiannwyr: egluro cyfrifoldebau amddiffyn rhag llifogydd, cymorth i dirfeddianwyr y defnyddir eu tir i storio dŵr
    - Asedau amddiffyn rhag llifogydd: Mae Llywodraeth y DU yn parhau i ariannu seilwaith amddiffyn rhag llifogydd newydd, gan gadarnhau y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cymell Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM)
    - Gwaith perygl llifogydd sy'n canolbwyntio ar ddalgylch: efallai ddim mor berthnasol erbyn hyn o ystyried rheoliadau diweddar Cymru gyfan, ond gallai fod lle i gymorth wedi'i dargedu ar gyfer y dalgylchoedd hynny sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan lifogydd

78. Gofynnodd Ruth Johnston, CNC, i Fraser beth sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ynghylch effeithlonrwydd dŵr. Rhoddwyd sylw i sychder ac argaeledd dŵr yn y cyflwyniad, ond beth am effeithlonrwydd o ran defnydd dŵr.

    Dywedodd Fraser fod yr adroddiad yn cynnwys rhai adrannau ar ddefnyddio dŵr yn effeithlon fel defnyddio systemau dyfrhau effeithlon a chasglu dŵr glaw ar fuarthau i wahanu dŵr glaw oddi wrth slyri.

79. Dywedodd Phil Roberts, Llywodraeth Cymru, y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys rheoli llifogydd yn naturiol ar lefel dalgylch ac yn helpu ffermwyr i addasu i sychder cynyddol a sut y dylem fod yn storio dŵr.

80. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, ei bod hi'n bwysig iawn bod y CLA wedi nodi'r mater hwn o sychder gan ei bod yn elfen bwysig y bydd rhaid i bob un ohonom ei hwynebu yn y dyfodol, ac mae sychder yn cael ei anwybyddu i raddau helaeth ar hyn o bryd. Mae wedi cymryd amser hir i bobl wneud y cysylltiad rhwng llifogydd a rheoli tir, felly mae angen i ni bwyso ar bobl i gydnabod mai dim ond un rhan o'r cylch yw llifogydd a

sychder yw'r pegwn arall. Mae sychder yn debygol o fod yn fwy o broblem i ni na llifogydd ymhen 10-20 mlynedd oherwydd yr effeithiau tymor hwy. Dywedodd Bob y byddai'n croesawu cael golwg gyntaf ar ddogfen Strategaeth Ddŵr CLA i wneud sylwadau arni, a gofynnodd beth yw'r cam nesaf unwaith y bydd y CLA wedi cynhyrchu'r ddogfen.

Dywedodd Fraser y bydd lansiad yn digwydd a gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn y wasg. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd bethau mae'r CLA ac eraill yn gweithio arnynt mewn perthynas â dŵr. Mae'r CLA yn rhagweld y bydd gwerth i'r adroddiad am y 10 mlynedd nesaf ond, o safbwynt Cymru, mae'n ymwneud â sicrhau bod rhai o'r argymhellion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Soniodd Fraser y bydd ei gydweithwyr ym Mhencadlys Llundain yn gweithio ar rai o'r materion ehangach sy'n ymwneud â seilwaith a chynlluniau sychder drwy lobïo a gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

81. Diolchodd Zoe i Fraser am rannu'r gwaith hwn mae'r CLA yn ei wneud.

## Eitem 8 Unrhyw fater arall

82. Gofynnodd Dennis Matheson, TFA, i'r grŵp pwy yw Gweinidog yr amgylchedd o fewn Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, mai Julie James AS yw Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru  a bod ei phortffolio'n cynnwys yr amgylchedd, tra bod Lesley Griffiths AS yn parhau fel y Gweinidog Materion Gwledig.

83. Rhoddodd Katy Simmons, CNC, ddiweddariad byr ar Gylchlythyr yr Is-grŵp. Dywedodd Katy ei bod wedi bod yn gweithio ar enw ar gyfer y cyhoeddiad a'i bod wedi llunio dogfen ganllawiau un dudalen ar gyfer y partneriaid sy'n rhoi manylion nodau'r Cylchlythyr, sut y gall pobl gyfrannu a beth yw'r broses olygyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo a'i anfon at randdeiliaid. Dywedodd Katy y bydd Bronwen yn rhannu'r ddogfen ganllawiau i'r grŵp ei hadolygu.

***PG 08 Mai: Bronwen Martin, CNC, i rannu dogfen ganllawiau'r Cylchlythyr gyda'r grŵp er mwyn i bawb ei hadolygu.***

84. Cynhelir cyfarfod nesaf yr Is-grŵp ar 21 Mehefin 2021.

## Diwedd y cyfarfod